

Y Nadolig

Yr unig Iesu mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei adnabod yw Iesu'r preseb a'r bugeiliaid, y seryddion a Herod Fawr. Ac mae teip Herod bob amser yn awyddus i'w adael yn faban diymadferth yn y preseb.

EMYNAU

Emyn yw hwn sy'n mynegi'r llawenydd a'r gorfoledd sydd ynghlwm wrth y Nadolig:

Awn i Fethlem, bawb dan ganu,
neidio, dawnsio a difyrru,
i gael gweld ein Prynwr c'redig
aned heddiw, Ddydd Nadolig.

Rhys Prichard (*Caneuon Ffydd*: 436)

Crynhoir yn yr emyn hwn holl rychwant bywyd a phwrpas gweinidogaeth a marwolaeth Iesu Grist:

Peraidd ganodd sêr y bore
ar enedigaeth Brenin nef;
doethion a bugeiliaid hwythau
deithient i'w addoli ef:
gwerthfawr drysor,
yn y preseb Iesu gaed.

Morgan Rhys (*Caneuon Ffydd*: 439)

Emyn sy'n gyforiog o gyfeiriadau Beiblaidd sy'n arwain i uchafbwynt o lawenydd:

Halelwia! Halelwia!
Aeth i'r lladdfa yn ein lle;
Halelwia! Halelwia!
Duw sy'n fodlon ynddo fe:

sain Hosanna i Fab Dafydd,
 Iesu beunydd fyddo'n ben;
 am ei haeddiant sy'n ogoniant
 bydded moliant mwy, Amen.

John Edwards (*Caneuon Ffydd*: 448)

Fydd hi ddim yn Nadolig heb eiriau Joseph Mohr a thôn Franz Grüber:

Dawel nos, sanctaidd yw'r nos,
 cwsg a gerdd waun a rhos,
 eto'n effro mae Joseff a Mair;
 faban annwyl ynghwsg yn y gwair,
 cwsg mewn gwynfyd a hedd,
 cwsg mewn gwynfyd a hedd.

Joseph Mohr *cyf.* T. H. Parry-Williams (*Caneuon Ffydd*: 467)

Hanes y geni yn ôl Mathew fu'n symbyliad i W. R. P. George fynd ati i gyfansoddi'r emyn hwn:

Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod,
 ganwyd Iesu'n Frenin nef,
 gwelwyd seren yn y dwyrain
 oedd yn arwain ato ef.

Rhown ein moliant uwch ei breseb;
 mae'r gogoniant ar ei wneb,
 wneb Iesu, wneb Iesu, Brenin nef.

W. R. P. George (*Caneuon Ffydd*: 477)

Galwad ar y ffyddloniaid i ddod i ganu a gorfoleddu yng nghreadigaeth y Gair tragwyddol a geir yn yr emyn hwn:

O henffych, ein Ceidwad,
 henffych well it heddiw;
 gogoniant i'th enw drwy'r ddaear a'r nef:
 Gair y tragwyddol

yma'n ddyn ymddengys:
 O deuwch ac addolwn,
 O deuwch ac addolwn,
 O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!

Priodolir i J. F. Wade cyf. Anad. (Caneuon Ffydd: 463)

GWEDDĪAU

Mae Duw yn dod atom yn aml iawn yn yr annisgwyl:

Gweddiwn:

Tydi, crëwr yr holl fyd, mewn cadachau!
 Tydi, Arglwydd y greadigaeth, yn swpyn gwinglyd, diymadferth!
 Ond dyna hanes y baban hwn o'i grud i'w groes, bob amser yn
 cyflawni'r annisgwyl –
 Plygu yn lle torsythu,
 y Meistr, fel gwas bach, yn golchi traed.
 Cerdded yr ail filltir a throi y foch arall;
 maddau'n lle melltithio a charu'n lle casáu.
 Dewis ffôl bethau'r byd a dod i'n plith yn faban heb ei wannach. Amen.

Gareth Maelor

Ar ôl clywed cân yr angylion, awn yng nghwmni'r bugeiliaid i ryfeddu at y peth hwn:

O Dduw ein Tad, clodforwn dy enw am i ti drwy dy ras ymweld
 â'n daear ni yn dy Fab, Iesu Grist.
 Cynorthwya ni y Nadolig hwn i fynd yng nghwmni'r bugeiliaid
 a'r doethion at ei breseb,
 i ryfeddu at dy drugaredd di tuag atom,
 ac i'w addoli ef a ddaeth yn Waredwr i ni.
 Cynorthwya ni, O Arglwydd,
 i wrando o'r newydd ar gân yr angylion
 ac i geisio tangnefedd yn ein byd.
 Gwared ni rhag anghofio, ynghanol ein digonedd,
 y rhai fydd yn dioddef y Nadolig hwn,
 a dysg i ni ein cyfrifoldeb tuag atynt. Amen.

Llyfr Gwasanaeth yr Annibynwyr Cymraeg

Yng nghwmni'r seryddion awn ninnau i gyflwyno ein rhoddion:

Ein Tad, wrth i ni gofio am y doethion yn dilyn y seren at y crud, gweddiwn am fedru cyflwyno i ti aur ein hufudd-dod, thus gwyleidd-dra, a myrr ein haddoliad, er anrhydedd a gogoniant i ti. Amen.

Frank Colquhoun

Pob Nadolig gweddiwn nad ydym yn anghofio gwir ystyr yr ŵyl:

Arglwydd Iesu, cofiwn dy eni ar y Nadolig cyntaf.
 Cynorthwya ni i gofio nad oedd lle yn y llety,
 a chadw ni rhag llenwi'n bywyd fel na byddo lle i ti.
 Cynorthwya ni i gofio'r stabl, a'r preseb yn grud,
 a chadw ni rhag chwennych y cyfoeth, y cysur a'r hawddfyd
 na chefaist ti mohonynt.
 Cynorthwya ni i gofio dyfodiad y bugeiliaid a'r doethion
 a deled y syml a'r dysgedig, y mawr a'r bach yn un
 wrth dy addoli a'th garu di. Amen.

William Barclay

Wrth baratoi ar gyfer yr ŵyl fasnachol gwyliwn rhag i ni anghofio paratoi ar gyfer yr ŵyl ysbrydol:

Diolchwn i ti, O Dduw ein Tad, am gael dy Fab Iesu Grist yn rhodd, y bu ei ddyfodiad i'r byd hwn yn hysbys gan y proffwydi gynt, ac a gafodd ei eni er ein mwyn mewn gostyngeiddrwydd a thlodi ym Methlehem. Wrth i ni baratoi unwaith eto i ddathlu ei eni, llanw ein calonau â'th lawenydd di a'th dangnefedd, a galluoga ni i'w groesawu fel ein Hiachawdwr; fel y caiff ynom, pan ddaw eto yn ei ogoniant a'i fawredd, bobl wedi'u paratoi ar ei gyfer; yr hwn sy'n byw a theyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr a hyd byth. Amen.

Frank Colquhoun

Yng nghanol ein llawenydd gwae ni rhag anghofio'r rhai mewn angen:

Gweddiwn dros y rhai na fedrant deimlo llawenydd y Nadolig am eu bod yn cario beichiau salwch, profedigaeth neu ryw aflwydd arall. Cysura â'th bresenoldeb bawb sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth y rhai a garant. Tyrd â goleuni Crist i'w bywydau trallodus. Amen.

Raymond Chapman

ADNODAU**Mae'r Logos (y Gair) wedi dod i breswyllo i fyd pobl:**

A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Ioan 1: 14

Cyhoeddi'r newyddion da oedd gwaith yr angel a dyna waith angylion Duw ym mhob oes:

Yna dywedodd yr angel wrthynt, "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb."

Luc 2: 10–12

Mae teip Herod Fawr yn amlygu ei hun ym mhob oes a chyfnod:

Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef.

Mathew 2: 1–3

Trwy'r distaw, y diymhongar, y llariaidd a'r gostyngedig y mae Duw yn gweithio:

Ac meddai Mair:

“Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy Ngwaredwr, am iddo ystyried distadledd ei lawforwyn.”

Luc 1: 46–48(a)

Datgelodd yr angel y newyddion da i wehilion y gymdeithas:

Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, “Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano.” Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn.

Luc 2: 15–17

Dychwelyd ar hyd ffordd arall mae pawb sydd wedi dod wyneb yn wyneb â Mab Duw:

Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

Mathew 2: 12

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Yn draddodiadol, digwyddai'r plygain rhwng tri a chwech o'r gloch y bore. Byddai'r gwasanaethau yn dechrau mewn tywyllwch ac yn gorffen yng ngolau dydd.

Ar noswyl y Nadolig, cyn gwasanaeth y Plygain, byddai'r gymdeithas yn dod at ei gilydd i wneud cyflaith a hynny'n cael ei wneud fel arfer ar garreg yr aelwyd.

Fel y byddai cyfnod y Nadolig yn dirwyn i ben ar y 6 Ionawr, nos Ystwyll, byddai'r dryw bach yn cael ei ladd, ei addurno a'i roi mewn tŷ bychan. Yna byddai criw o ddynion yn mynd ag ef o dŷ i dŷ a byddai'r trigolion yn rhoi arian iddynt am gael cipolwg ar yr aderyn bach.

Arferiad hynod o boblogaidd dros y Nadolig yw'r Fari Lwyd. Mae gwreiddiau'r arferiad hwn yn mynd â ni'n ôl i'r cyfnod cyn-Gristnogol. Penglog ceffyl wedi'i orchuddio â lliain a rhubanau oedd y Fari Lwyd. Byddai'r penglog yn cael ei roi ar bolyn fel bod modd i'r person oedd o dan y lliain agor a chau genau'r penglog. Byddai criw o ddynion yn mynd o gwmpas y tai yn gofyn am wahoddiad i'r tŷ i ddiddanu ac i gael bwyd a diod yn gyfnewid am hynny. Byddai'n anlwcus gwrthod y Fari Lwyd.

Gŵyl Sant Steffan yw'r enw ar y diwrnod ar ôl y Nadolig. Yn ôl Llyfr yr Actau Steffan oedd y merthyr cyntaf.